

## LLWYD, ANGHARAD (1780 - 1866), hynafiaethydd

**Enw:** Angharad Llwyd

**Dyddiad geni:** 1780

**Dyddiad marw:** 1866

**Rhiant:** Martha Lloyd (née Williams)

**Rhiant:** John Lloyd

**Rhyw:** Benyw

**Galwedigaeth:** hynafiaethydd

**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Evan Gilbert Wright

Ganwyd 15 Ebrill 1780 yng Nghaerwys, Sir y Fflint, merch [John Lloyd](#), rheithor Caerwys.

Yr oedd Angharad Llwyd yn aelod o (ail) Gymdeithas Cymmrodorion Llundain, a derbyniodd lawer o fedalau aur ac arian mewn eisteddfodau am ei thraethodau. Yn eisteddfod y Trallwng, 1824, cafodd yr ail wobwr am ' Catalogue of Welsh Manuscripts, etc., in North Wales '; dau draethawd arall o'i heiddo oedd ' Genealogy and Antiquities of Wales ' a ' The Castles of Flintshire.' Golygodd a chyhoeddodd argraffiad o [The history of the Gwydir family](#) (Syr John Wynn). Ei phrif waith cyhoeddedig oedd *History of the Island of Mona*; derbyniasai hwn y brif wobwr yn eisteddfod Biwmares, 1832.

Treuliodd gyfran helaeth o'i hoes yn copïo llawysgrifau mewn llyfrgelloedd preifat trwy'r wlad; ceir syniad am faint ei diwydrwydd yn copïo ac am swm ei chyfraniadau hi ei hun os edrychir ar y llu llawysgrifau o'i heiddo sydd yng nghasgliadau Kinmel, etc., yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bu farw 16 Hydref 1866 yn Ty'n y Rhyl.

### Awdur

Y Parchedig Ganon Evan Gilbert Wright, (1903)

### Ffynonellau

*Notable Welshmen (1700-1900)* (1908)

H. Blackwell, [NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

Thomas Pennant, *A Tour (Tours) in [North] Wales*, I, vi-vii

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1828, 36-58

NLW MSS 781, 1551->1616

*Archaeologia Cambrensis*, 1867, 69

Cofrestr plwyf Caerwys

Mary Ellis, *Flintshire Historical Society publications*, Cyf 26 a 27

## Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Angharad Llwyd](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [59433905](#)

Wikidata: [Q4763157](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

